

Crynodeb Gwirio Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – 21101

Dyddiad y gweithgarwch: 28 Chewfror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o leoliad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r lleoliad yn ward anabled dysgu wyth gwely, wedi'i leoli o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad ag aelodau o staff y ward ar 28/02/2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r perygl o heintiau'n cael ei asesu a'i reoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n nodi a rheoli brigiadau o achosion COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar hyn o bryd? Pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi cael eu gwneud i'r canlynol o ganlyniad i COVID-19:
 - Yr amgylchedd ffisegol
 - Arferion, trefniadau ymweld a chyswllt ag anwyliaid
 - Rheoli ymddygiad
 - Mynediad cleifion at y gymuned / absenoldeb, gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?

- Sut ydych yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad at weithwyr proffesiynol iechyd a gofal ehangach lle bo angen?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?
- Gan ystyried effaith COVID-19, sut ydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal yn erbyn y Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, a sut mae hawliau cleifion yn cael eu diogelu?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad/archwiliad risg amgylcheddol mwyaf diweddar
- Adolygiad thema misol o ddigwyddiadau - y chwe mis diwethaf
- Adolygiad misol o'r defnydd o ataliaeth a neilltuaeth (nodwch y mathau o ataliaeth a ddefnyddiwyd: corfforol/mecanyddol / defnyddio meddyginiaeth) - y chwe mis diwethaf
- Asesiad risg ar gyfer ataliaeth fecanyddol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gofynnwyd i'r staff am y newidiadau a wnaed i amgylchedd y ward o ganlyniad i COVID-19. Dywedasant wrthym fod glanhau ychwanegol yn cael ei gynnal, gydag aelodau staff yn gyfrifol am gadw mannau penodedig yn lân pan fyddant ar eu shifftiau. Yn ogystal, mae'r holl daflenni ar yr hysbysfwrdd cleifion i gyd wedi'u lamineiddio i'w gwneud yn hawdd eu glanhau.

Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth therapiwtig oddi ar y safle wedi'u hatal oherwydd COVID-19. O ganlyniad, cyflwynwyd llawer o weithgareddau ar y ward i gleifion, gan gynnwys coginio, garddio, gemau bwrdd, a sgrin daflunio ar gyfer ffilmiau.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y rhan fwyaf o ymweliadau wedi'u hatal o ganlyniad i COVID-

19, ac mai dim ond ar gyfer cleifion diwedd oes y caniateir hynny. Roedd ymweliadau o'r fath yn 20 munud o hyd a byddai'r rhai a oedd yn ymweld yn mynd i mewn trwy fynedfa gefn, gan wisgo cyfarpar diogelu personol llawn. Oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig cleifion ar y ward, cymerodd rhai fwy o amser i addasu i'r ffaith nad oedd aelodau'r teulu'n gallu ymweld. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio galwadau fideo cymaint â phosibl, er mwyn cynnal cysylltiad rhwng y cleifion a'u teuluoedd. Ers hynny, mae'r staff wedi gallu cefnogi cleifion i gynnal ymweliadau oddi ar y safle yng nghartrefi eu teuluoedd. Maent hefyd yn cael defnyddio ystafell mewn rhan wahanol o'r ysbyty, lle gellir cynnal ymweliadau wrth gadw pellter cymdeithasol, yn dibynnu ar asesiadau risg unigolion. Dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd wedi archebu gasebo i ganiatáu ymweliadau yn yr ardd yn ystod misoedd yr haf.

Dywedodd y staff wrthym, er eu bod yn gwneud pob ymdrech i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd, mae'r cleifion yn ei chael hi'n anodd. Bydd rhai yn defnyddio cyffwrdd i gyfathrebu, megis dal llaw aelod o staff. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw'r rhan fwyaf o'r cleifion yn rhyngweithio â'i gilydd yn gyffredinol a'u bod yn cadw pellter naturiol oddi wrth ei gilydd. Hefyd, yn ystod amser bwyd, gosodir cadeiriau dau fetr o bellter oddi wrth ei gilydd ar bob pen o'r byrddau ac mae'r staff yn y broses o gyfnewid y soffas mewn ardaloedd cymunol am gadeiriau, er mwyn gwella cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o staff y ward wedi cael hyfforddiant cymorth gweithredol. Mae gan bob claf gynllun cymorth unigol sy'n cynnwys ei holl hoffterau a chasbethau o ran bwyd a gweithgareddau. Tynnodd y staff sylw at bwysigrwydd canfod beth sy'n ysgogi pob claf fel rhan o'i broses asesu. Maent yn annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gofal personol cymaint â phosibl er mwyn eu helpu i baratoi i adael y ward a mynd yn ôl i'r gymuned. Hefyd, anogir y cleifion i wneud eu siopa eu hunain. Mae hyn yn galluogi'r staff i gwblhau asesiadau galluedd ac ariannol o'r cleifion.

Gofynnwyd i'r staff sut mae'r staff a chleifion yn cael eu cadw'n ddiogel rhag risgiau COVID-19 wrth ddefnyddio trafndiaeth. Dywedasant wrthym fod gan bob un o'r tri cherbyd ei asesiad risg ei hun a bod pob claf hefyd yn cael asesiad risg unigol i ddefnyddio'r dtrafnidiaeth. Rhaid i fasgiau gael eu gwisgo yn y cerbydau a dywedwyd wrthym fod un o'r cerbydau yn caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol. Mae pob cerbyd yn cael ei lanhau ar ôl pob defnydd ac mae yna hefyd becyn cymorth cyntaf a phecyn cyfarpar diogelu personol lefel dau ym mhob un.

Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS) yn cael eu defnyddio i gefnogi cleifion ag ymddygiad heriol. Os bydd angen ataliaeth, bydd staff yn defnyddio techneg llai cyfyngol, a ddisgrifiwyd gan staff fel techneg dim poen. Mae staff yn dilyn hyfforddiant Trais ac Ymddygiad Ymosodol fel rhan o'r hyfforddiant ataliaeth gorfforol, ond dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff wedi cael trafferth dod o hyd i'r hyfforddiant perthnasol ar eu system ar-lein. Mae uwch aelodau o staff yn gweithio i ddatrys y mater hwn ar hyn o bryd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod cydymffurfedd â hyfforddiant ataliaeth ymarferol yn isel ar hyn

o bryd oherwydd bod yr hyfforddiant wedi cael ei ohirio yn ystod y pandemig. Mae hyn bellach wedi'i adfer ac mae staff newydd yn cael eu blaenoriaethu, ond mae'n dal i fod yn broses araf oherwydd mai dim ond chwech o bobl sy'n gallu gwneud yr hyfforddiant ar y tro, er mwyn cynnal cadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod ganddynt hyfforddwyr mewnol ar gyfer hyfforddiant ymyrraeth gorfforol a bod y staff i gyd yn cydymffurfio â hyn, ar ôl cael hyfforddiant gloywi'r llynedd, a bydd yn cael ei amserlennu eto eleni pan fydd angen.

Dywedwyd wrthym fod un claf ar y ward yn destun asesiad risg ar gyfer defnyddio ataliaeth fecanyddol ar hyn o bryd. Mae hyn er mwyn atal hunan-niweidio. Yn ôl y staff, mae'r defnydd o'r ataliaeth hon wedi lleihau ers i'r claf fod ar y ward, oherwydd iddo ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddangos rhwystredigaeth. Dywedodd y staff wrthym fod yr asesiad risg ar gyfer y claf hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym fod yr holl benderfyniadau er budd pennaf yr unigolyn yn cael eu gwneud gan dîm amlddisgyblaethol, aelodau teulu'r claf, a'r claf ei hun, os gall wneud hynny. Mae cyfarfodydd gyda'r tîm amlddisgyblaethol ac aelodau'r teulu yn digwydd yn fisol, ond gall y seiciatrydd neu'r seicolegydd alw cyfarfodydd ychwanegol gyda'r teulu i drafod diagnosis a chynlluniau gofal. Bydd y staff hefyd yn sicrhau bod aelodau'r teulu yn cael cofnodion o unrhyw gyfarfodydd na allant fod yn bresennol ynddynt. Gall y teuluoedd hefyd gysylltu â'r ward a gofyn i staff godi materion mewn cyfarfodydd os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff yn siarad Cymraeg a'u bod yn gwisgo bathodynau perthnasol i ddangos hyn. Maent yn ymwybodol o gyrsiau sydd ar gael i unrhyw staff eraill sy'n dymuno dysgu Cymraeg ac, oherwydd bod niferoedd bach ar y wardiau, mae'r cleifion yn gwybod at ba aelodau o staff y gallant fynd atynt os ydynt yn dymuno siarad Cymraeg. Mae'r staff hefyd yn cadw rhestr o'r holl sianeli radio Cymraeg ar gyfer unrhyw gleifion sy'n dymuno gwrando arnynt. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r ward hefyd, pe bai ei angen.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg ar gyfer defnyddio ataliaeth fecanyddol. Er bod yr asesiad risg yn fanwl ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gofynnwn i'r wybodaeth ganlynol gael ei hychwanegu:

- Dylid cynnwys defnydd rhesymegol o'r ataliaeth fecanyddol yn y cyflwyniad. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r risg os na ddefnyddir yr ataliaeth.
- Dylid cwblhau sgoriau risg hefyd drwy'r asesiad risg er mwyn cadarnhau neu bennu lefel y risg.
- Dylai'r asesiad risg hefyd nodi pwy oedd y penderfynwyr unigol a dylai'r holl staff ei ddarllen a'i gymeradwyo.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Polisi rheoli heintiau cyffredinol a pholisi penodol ynglŷn â COVID-19
- Asesiad/archwiliad risg mwyaf diweddar o ran rheoli heintiau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o'r polisi atal a rheoli heintiau a pholisi penodol ynglŷn â COVID-19 ar gyfer y ward, yn ogystal â'r asesiad risg rheoli heintiau diweddaraf. Roedd pob un yn gyflawn ac yn gyfredol.

Dywedodd staff wrthym am y newidiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i COVID-19. Mae newidiadau wedi cynnwys lleihau beth sydd ar gael yn gyffredinol yn amgylchedd y ward, gosod peiriannau diheintio dwylo trwy gydol y ward, glanhau pob rhan o'r ward ar ddechrau a diwedd pob shift, a glanhau'r gawod ar ôl ei defnyddio bob tro. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyrwyddwyr gwisgo a diosg ar y ward a bod archwiliadau ymolchi dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Mae'r staff yn gwisgo masgiau cyfarpar diogelu personol bob amser ond byddant yn cynyddu faint o gyfarpar diogelu personol a ddefnyddir os oes claf sydd wedi profi'n bositif ar gyfer COVID-19 ar y ward. Mae yna hefyd ddewis iddynt wisgo masgiau sensitif i helpu i atal llid y croen. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gwisgo a diosg a byddant hefyd yn newid i'w gwisg ar y ward, ac yn newid yn ôl ar ddiwedd eu shift cyn gadael.

Dywedodd y staff wrthym fod pob claf yn cael asesiadau risg unigol o ran cyfarpar diogelu personol, ond ni fydd yr un ohonynt yn gwisgo masgiau ar y ward gan y gall amharu ar eu gallu i gyfathrebu.

Mae pob claf yn cynnal profion PCR bob yn ail wythnos, ac eithrio un claf, sy'n cael dau brawf PCR yn wythnosol a phrofion llif unffordd dyddiol oherwydd ei fod yn glaf trawsblaniad. Rhaid

i'r staff hefyd gael prawf llif unffordd negyddol cyn dechrau shift.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cynyddu trafodaethau gyda'r cleifion ynghylch germau a chadw pobl yn ddiogel. Fe wnaethant hefyd gynhyrchu dogfennau hawdd eu darllen i'r cleifion i'w helpu i ddeall beth oedd yn digwydd yn ystod y pandemig a sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Dywedodd y staff wrthym hefyd, oherwydd eu bod yn gwisgo masgiau'n gyson, bod cleifion wedi cael trafferth darllen mynegiant yr wyneb. Mae'r staff wedi dibynnu mwy ar Makaton i gyfathrebu ac wedi cynyddu eu defnydd o luniau a symbolau.

Dywedodd y staff wrthym am y broses a ddefnyddiwyd yn ystod yr achos COVID-19 positif diwethaf ar y ward. Roedd y cleifion yn ynysu rhwng eu hystafell a lolfa a ddefnyddir ganddyn nhw yn unig. Roedd y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol uwch a chwblhawyd asesiad risg penodol. Fe'n hysbyswyd hefyd, ar ddechrau pob shift, bod aelodau o staff enwebedig yn cael eu nodi i weithio gyda'r unigolyn hwn yn unig er mwyn atal croes-halogi. Hefyd, roedd y claf hwn yn cael gofal nyrsio gan staff mewn gynau pan oedd yn positif, i ganiatáu ar gyfer glanhau dwfn ac i atal yr angen i fynd â dillad y claf hwn i'r ystafell golchi dillad.

Pan ofynnwyd iddynt sut mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, dywedodd y staff wrthym fod goruchwyliaeth glinigol yn cael ei defnyddio'n aml i rannu gwybodaeth o'r fath. Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd staff wedi cael goruchwyliaeth grŵp wrth gadw pellter cymdeithasol fel y gallent drafod diweddariadau o ran gwybodaeth a sut y gallent ddysgu. Mae'r gwersi a ddysgir hefyd yn cael eu cyfleu trwy gyfarfodydd 'gweithio i wella', lle rhennir cofnodion o gyfarfodydd gwasanaethau arbenigol hefyd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a oedd y trefniadau rheoli yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn diwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad at weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach lle bo angen.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Disgrifiad byr o'r model gofal ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, gan gynnwys manylion unrhyw ddarpariaeth breswyl

-
- Manylion am arbenigedd y ward/gwasanaeth, gan gynnwys nifer y gwelyau a defnydd presennol
 - Strwythur rheoli (yn dangos llinellau adrodd o reolwr y lleoliad ac i fyny)
 - Nifer y derbyniadau a'r cleifion a ryddhawyd (tri mis)
 - Nifer y cleifion sy'n destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid neu'r Ddeddf Iechyd Meddwl (rhestr o'r adrannau gwirioneddol y mae cleifion yn cael eu cadw oddi tanynt)
 - Cydymffurfedd ag adolygiadau pasbort / proffil iechyd ysbyty sydd ar waith (unrhyw offeryn a fyddai'n cael ei drosglwyddo i ofal eilaidd pe bai rhywun yn cael ei dderbyn gan wasanaeth o'r fath)
 - Cydymffurfedd â gwiriadau iechyd blynyddol
 - Swyddi gwag presennol staff (a restrir yn ôl rôl)
 - Salwch staff presennol (a restrir yn ôl rôl)
 - Defnydd misol o staff asiantaeth (tri mis)
 - Defnydd misol o staff banc (tri mis)
 - Cyfraddau cwblhau canrannol presennol o hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant hanfodol sy'n benodol i'r claf (a restrir yn ôl pwnc unigol)
 - Data llais y claf am y tri mis diwethaf
 - Polisi uwchgyfeirio
 - Y polisi/proses gorfforaethol i sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o swyddi gwag a salwch staff wedi'u rhestru'n fanwl fesul rôl. Gwelsom hefyd bolisi uwchgyfeirio cynhwysfawr a pholisi i baratoi ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol. Roedd y ddau yn gyflawn ac mewn dyddiad.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio'n cael eu hasesu a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau staffio diogel. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod staff banc yn cael eu defnyddio'n aml i helpu i gyflenwi yn ystod salwch staff a chynyddodd yr angen am staff banc pan oedd 15 aelod o staff i ffwrdd yn sâl oherwydd COVID-19.

Dywedodd staff wrthym y gall uwch-reolwyr adolygu'r system hyfforddi ar-lein a mynd ar drywydd cydymffurfedd isel ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Mewn achosion o gydymffurfedd isel, gofynnir i staff wardiau ddarparu sail resymegol dros hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod lefelau salwch staff a staff newydd yn effeithio ar ffigurau cydymffurfio ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddynt am dderbyniadau a rhyddhau, cadarnhaodd y staff eu bod yn dal i ddilyn polisi COVID-19 y bwrdd iechyd ynglŷn â hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod pob claf yn cael ei atgyfeirio ar gyfer eiriolaeth a bod cyfarfodydd ag eiriolwyr yn aml yn cael eu cynnal dros Microsoft Teams, oherwydd bod y rhan fwyaf yn gweithio gartref. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod y ward yn cael cymorth gan y meddyg teulu lleol, sy'n ymweld â'r ward yn wythnosol,

ond y bydd hefyd yn mynychu ar adegau ychwanegol os oes angen. Bydd yn gwthio i gael apwyntiadau ysbyty ar gyfer cleifion os oes angen ac mae'n ymatebol iawn o ran ateb i negeseuon e-bost a galwadau ffôn trwy gydol yr wythnos.

Gofynnwyd i'r staff sut yr ystyrir cyfyng-gyngor moesegol ynglŷn â gofal cleifion unigol a sut y ceisir cymorth. Rhoddodd y staff enghraifft i ni o'r cyfyng-gyngor moesegol cychwynnol ynglŷn â'r penderfyniad i ddefnyddio ataliaeth feddal ar gyfer un o'r cleifion. Dywedasant wrthym am y gwaith da gan y tîm amlddisgyblaethol o amgylch yr achos hwn a bod y cyfathrebu'n glir rhwng y teulu a'r staff, gan arwain at bawb yn cytuno ar y canlyniad gofynnol. Yn yr achos hwn, nid oedd gan y claf y galluedd i fod yn rhan o'r penderfyniad, felly cafodd y tîm amlddisgyblaethol (gan gynnwys aelodau'r teulu) sgysiau manwl ynghylch y budd gorau er mwyn gwneud y penderfyniad gorau i'r unigolyn.

Dywedodd y staff wrthym fod awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod dyddiadau adnewyddu o'r fath yn cael eu cynnwys mewn rowndiau ward. Dywedwyd wrthym fod yr holl adnewyddiadau a anfonwyd at Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi'u cwblhau mewn modd amserol. Dim ond yn achos un, y bu'n rhaid ei anfon i Sussex i'w adnewyddu, y bu oedi.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: 21102 - Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad y gweithgarwch: 28/02/2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad risg ar gyfer yr ataliaeth fecanyddol gynnwys y wybodaeth ganlynol: - Dylid cynnwys y defnydd penodol o'r ataliaeth fecanyddol yn y cyflwyniad. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r risg os na ddefnyddir yr ataliaeth. - Dylid cwblhau sgoriau risg hefyd drwy'r asesiad risg er mwyn cadarnhau neu bennu lefel y risg. - Dylai'r asesiad risg hefyd nodi	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Adolygu'r asesiad risg ar gyfer yr ataliaeth fecanyddol, gan gynnwys yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.	Metron Rheolwr y Ward.	Cwblhawyd. Asesiad risg wedi'i adolygu i gynnwys y wybodaeth ofynnol ar 29/03/2022. Llofnodwyd gan y tîm amlddisgyblaethol llawn.

	pwy oedd y penderfynwyr unigol a dylai'r holl staff ei gymeradwyo.				
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: William Haydn Williams

Dyddiad: 30/03/2022